# CRI

# CARCHAROR

DAN

# *Farn Marwolaeth.*

TROM y galon, tra mae gwelydd
Mawr yn rhannu rhwng carennydd,
Tad a mam, a phlant a phriod,
Brawd a chwaer, a phob cydnabod;
Yn dihoeni wrth ei hunan,
Mewn ger gilfach, neu gul ibach yn gwael wban;
Heb ddim goleu, tân na gwely,
Na dim moddion, na da ddynion i'w ddiddanu.

2.

Trom y galon, tra mae'n gweled
Cwmp'ni atgas, diras, diriaid,
A'u drwg gilwg gyd â'u gilydd,
Yn dirboeni rhyw rai beunydd;
Rhai digasog, ffyrnig, creulon,
Fel yn Uffern, yma yw'r Gerthern ro'er yn gaethion;
Mewn gwedd ac anian, iaith a gweithred,
Yn rhai salw, o'r un ddelw a charn o ddiawliaid.

Y203 / 034
LL/A409
6411.

3.

Trom ein calon, tra mae'n clywed
'Sgrech y ddôr yn gwichio'n ddiriaid;
Trist yw clywed trwst y cloion
Yn cau drysau'r muriau mawrion;
Dadwrdd lingciau hei'rn yn tingcio,
Ydyw'r clychau, a'r llais main tenau sy yma yn tiwnio.
Griddfan, cwyn, ac oer och'neidiau
Fyth breswylia'n holl anniddan hyll anneddau.

4.

Trom y galon, tra mae goleu
I rai 'nabod ein hwynebau;
Waith llu sy'n cyrchu i mewn i'r carchar
Bob dydd o rannau pell y ddaear;
Er cael mewn cyffes hanes hynod,
Faint yn ffiaidd yn ein buchedd wnaem o bechod;
Pan addefom, llawer adyn
Sy'n lle tosturio, yn ein gwawdio'n union gwedi'n.

5.

Trom y galon, tra mae gŵilwyr
Dewr yn cadw'r pyrth yn gywir;
Maith fesurau'r muriau mawrion,
Wnai'r gwr a'u gwelo'n oer ei galon;
Er eu trengu, rhaid cyn tringon'
Y fath uchder gael rhyw 'sgeler hir ysgolion;
Ac amhosibl fyth i gaeth-ddyn,
Gwthied fynno, allu treiddio tyllau trwyddyn'.

18.

Trom yw'r galon, tra mae'r golwg
Ar y gelyn garwa'i gilwg,
Yr angau dewr, â'i lifrau duon
Wna'r dewra a'i gwelo dorri ei galon;
Nid all un câr, na chyfaill mwynaidd
Gynnorthwyo pan y delo poenau a dialedd:
I b'le trown pan codo 'storom,
Ac erchylldod y diwrnod mawr dû arnom.

19.

Os oes cyfaill fo'n ein cofio
Yn deisyfu gwel'd ein safio,
Y rhai nesaf o'n perth'nasau,
Hyd 'nod brodyr ofna'u bradau;
Rhoddi tostur farn marwolaeth
Ar lofruddion mawr, a lladron, mae'r llywodraeth;
Er diogelu'i ddeiliaid ffyddlon,
Eu bywydau a'u meddiannau mewn modd union.

20.

Ofer disgwyl help o'r bryniau,
Nag o liaws y mynyddau;
Ni rydd Sior, sy fawr ei soriant,
Un addewid o faddeuant;
Y mae'r gyfraith gaeth yn bwrw
'R adyn lleddfol, edifeiriol, fyn'd i farw;
Er dwys wban, nid oes obaith
Cael gan honno, gwedi ei digio, gadwedigaeth.

## 21.

Arglwydd grasion, tirion, tyred
O'm gerwin gyflwr yma i'm gwared;
Torr y rhwymau, y c'lymmau, a'r cloion
Sy'n dynn gul, am dan y galon;
    Er bod dynion, am ei bechod
Mawr, anafus, a dû warthus, wedi' wrthod;
    Dyro i'r gwaela' erioed d'ymgeledd,
I gael gweled dôr agored i'th drugaredd.

## 22.

Mae hanesion i Manasse,
O ryw fan fel lle 'rwyf finnau,
Er ei gamwedd, gael dy gymmod,
A'i ryddhau o'r baich o bechod;
    Fy mhechod galw mae am ddialedd,
Ond yr Iesu sy'n eirioli am drugaredd;
    Gwrando, O Dad! ar ei eiriolaeth,
Pan b'wy' i'n marw, a mawr elw fydd marwolaeth.

DIWEDD.

CAERFYRDDIN:
Argraffwyd gan Z. B. Morris, yn Heol-y-Farchnad Isaf.
1818.